

YSBYTY LLANIDLOES

**EICH LLAIS, EICH GOFAL,
EICH HAWL I WYBOD**

Gwyddom faint y mae Ysbyty Llanidloes yn ei olygu i'r gymuned—a bod newidiadau dros dro diwedd i wasanaethau wedi codi pryderon i lawer ohonoch.

Yn Llais, ein rôl ni yw gwrandu arnoch chi a siarad ar eich rhan. Dyna pam rydym wedi mynd â'ch pryderon yn uniongyrchol at Fwrdd lechyd Addysgu Powys a gofyn iddynt am atebion. Dyma beth ddywedwyd wrthym – a beth rydym yn ei wneud nesaf:

Beth Sy'n Digwydd

1. Sut mae pobl yn cael eu hysbysu?

Mae'r Bwrdd lechyd wedi rhannu diweddariadau ar ei wefan ac yn dweud ei fod yn defnyddio rhybuddion e-bost a rhwydweithiau lleol. Maent hefyd yn bwriadu trafod y gwerthusiad o'r newidiadau presennol yn eu **Cyfarfod Bwrdd ym Gorffennaf.** 

2. A oes newidiadau newydd ar ddod?

Ddim eto. Mae'r rhaglen "Gwell Gyda'n Gilydd" ar hyn o bryd yn casglu barn ar wasanaethau iechyd lleol – nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud. Gallwch gymryd rhan tan **25 Mai** drwy eich cyngor lleol, llyfrgell, neu ar-lein. 

3. Beth am bobl yn aros yn hirach am ofal?

Rydym wedi cael gwybod bod y Bwrdd lechyd yn gweithio gyda darparwyr GIG Lloegr i wella cymorth i bobl ar restrau aros. Disgwylir mwy o ddiweddariadau ym mis Mehefin.



4. Pa wasanaethau sydd ar gael o hyd yn Ysbyty

Llanidloes? Gallwch ddod o hyd i restr o wasanaethau cyfredol ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Beth mae Llais yn ei Wneud?

Bydd Llais Powys yn parhau i:

- Wrando ar bobl leol – rydym allan yn eich cymunedau ac eisiau clywed eich barn.
- Herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – rydym wedi gofyn am gyfathrebu cliriach ac ymgysylltu mwy cynhwysol.
- Rhoi gwybod i chi – pan fyddwn yn clywed mwy, byddwch yn clywed mwy.

Sut Gallwch Chi Gymryd Rhan

Cymryd rhan yn yr ymgysylltiad "Gwell Gyda'n Gilydd" erbyn 25 Mai

Os oes angen help arnoch i gymryd rhan neu eisiau rhannu eich profiadau gyda ni, cysylltwch yn uniongyrchol:

Ffôn: 01874 624206

Ebost: powysenquiries@llaiscymru.org

Gwefan: www.llaiswales.org

Mae eich llais yn bwysig – ac rydym yma i sicrhau ei fod yn cael ei glywed.

"Rydyn ni'n gwrando. Rydyn ni'n siarad. Rydyn ni'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi."

